



Cyfarfod: Y Cyd-bwyllgor Archwilio
Lleoliad: Trwy gyfrwng Teams
Dyddiad: 31 Gorffennaf 2025
10am – 11.45am

<u>Aelodau:</u>	David Macgregor (DM) (Cadeirydd y cyfarfod) Ms Julie James (JJ) Ms Caroline Wheeler (CW) Mr Farhan Shakoor (FS)
<u>Mynychwyr y Cyd-bwyllgor Archwilio</u>	Mr Ifan Charles, Prif Gwnstabl Dros Dro (IC) Ms Carys Morgans, Prif Swyddog Gweithredol (CM) Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (EH) Ms Nicola Davies, Prif Swyddog Cyllid Dros Dro (ND) Mr Jonathon Maddock, TIAA (JM) Mr Jason Blewitt, Archwilio Cymru (JB) Mr Mark McSweeney, Uwch-arolygydd Dros Dro, Pennaeth yr Uned Gwella Gwasanaethau (MM) Ms Gaynor Maddox, Pennaeth Rhaglenni a Newid (GM) Ms Michelle Reynolds, Pennaeth Cyllid Dros Dro (MR) Mr Neil Evans, Rheolwr Busnes SCHTh (NE)
<u>Ymddiheuriadau</u>	Ms Kate Curran (KC) Cadeirydd Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu (DLI) Ms Linda Williams, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol (LW) Ms Aneesa Ali, Archwilio Cymru (AA)
<u>Datganiadau o fuddiant:</u>	Dim

1. Penodi Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio ar gyfer y cyfnod 2025 – 2027

Enwebwyd Kate Curran gan DM i fod yn gadeirydd am y cyfnod 2025-2027. Pleidleisiodd yr aelodau ac mewn penderfyniad unfrydol cytunwyd y dylid penodi Kate Curran yn gadeirydd am y cyfnod 2025-2027.

Penderfyniad D1 – Ethol Kate Curran yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio am y cyfnod 2025-2027.

2. I gadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2025

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2025 fel cofnod gwir a chywir gan y pwyllgor.

3. Adolygiad o Gamau Gweithredu Heb eu Cyflawni

Hysbyswyd yr aelodau fod diweddariad wedi'i ddarparu ar gyfer Cam Gweithredu A45 mewn perthynas ag adolygiad o'r taenlenni a ddefnyddir gan Iechyd a Diogelwch. Hysbyswyd y pwyllgor gan NE fod yr uwch-reolwr o fewn Iechyd a Diogelwch wedi siarad â chydweithwyr yng Ngogledd Cymru a bod hyn wedi arwain at adolygiad o wybodaeth perfformiad yn Nyfed-Powys a fydd yn negyddu'r defnydd o daenlenni yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn i'w gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Cytunodd yr aelod y gellid cau'r weithred hon.

4. Cynllun Gwaith y Cyd-bwyllgor Archwilio

Darparwyd cynllun gwaith y Cyd-bwyllgor Archwilio er gwybodaeth i'r aelodau. Nodwyd nad yw adroddiadau'n barod ar adegau ar gyfer y cyfarfod y trefnwyd eu cyflwyno. Lle mae hyn yn digwydd, cytunwyd y dylai'r eitem ar y cynllun gwaith newid lliw er mwyn ei gwneud hi'n hawdd deall pa eitemau sydd wedi newid dyddiad.

Cam Gweithredu A1 – Lle nad yw adroddiad yn cael ei baratoi mewn pryd ar gyfer y cyfarfod a drefnwyd, dylid rhoi cod lliw ar y gell gyfatebol ar y cynllun gwaith i amlygu'r adroddiadau hynny sydd wedi'u gohirio.

5. Adroddiad Blynyddol Y Cyd-bwyllgor Archwilio

Ystyriwyd yr adroddiad blynyddol drafft sy'n cwmpasu'r cyfnod 2024/2025 gan y pwyllgor.

Hysbyswyd gan DM y dylid ychwanegu troednodyn at y tabl presenoldeb i dynnu sylw at y ffaith nad oedd Brian Jones, er ei fod yn aelod o'r pwyllgor yn ystod 2024/2025, wedi mynychu cyfarfod cyn ei ymddiswyddiad.

Nododd IC fod y Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth wedi'i gynnwys yn yr adroddiad blynyddol a chan nad oedd aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi bod yn bresennol, dylid tynnu hyn o'r adroddiad.

Nododd DM fod sôn am 20 o adolygiadau archwilio mewnol yn yr adroddiad blynyddol ond bod Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol yn nodi bod 21 o adolygiadau wedi'u cynnal yn 2024/2025. Cytunwyd y dylid diwygio'r paragraff hwn yn yr adroddiad blynyddol.

Cam Gweithredu A2 – Cynnwys cyn aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio, Brian Jones, fel troednodyn yn Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio.

Cam Gweithredu A3 – Dileu'r sôn am y Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth yn Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio gan nad oes unrhyw aelodau wedi bod yn bresennol yn ystod 2024/2025.

Cam Gweithredu A4 – Diwygio'r paragraff sydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2024/2025 fel ei fod yn adlewyrchu Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol.

Penderfyniad D2 – bod yr adroddiad blynyddol wedi'i gymeradwyo i'w gyhoeddi gan y pwyllgor yn amodol ar y gwelliannau a amlinellwyd uchod.

6. Cael diweddariad o gyfarfod y Grŵp Llywodraethu Archwilio a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2025.

Ystyriwyd adroddiad cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Archwilio a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf gan yr aelodau a nodwyd bod dyddiadau yn yr adroddiad ar gyfer cynnal adolygiadau chwarter 2. Nodwyd y dylid diwygio'r adroddiad cyn ei ystyried gan y Cyd-bwyllgor Archwilio fel bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r dyddiadau diweddaraf y cytunwyd arnynt ar gyfer adolygiadau.

Gofynnodd CW a fydd yr adolygiad seiberddiogelwch yn cael ei gynnal a'i gwblhau mewn pryd. Dywedwyd wrth y pwyllgor fod y gwaith cefndirol wedi'i gwblhau a byddai'r adolygiad yn cael ei gwblhau mewn pryd. Hysbyswyd y pwyllgor hefyd fod seiberddiogelwch bellach wedi'i ymgorffori yn y cynlluniau parhad busnes er mwyn cynyddu gwydnwch.

Cam Gweithredu A5 – Bod adroddiad y Grŵp Llywodraethu Archwilio yn cael ei ddiweddararu cyn y Cyd-bwyllgor Archwilio i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r dyddiadau diweddaraf y cytunwyd arnynt ar gyfer adolygiadau.

7. Ystyried camau gweithredu cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2025 (Cyfarwyddwr Cyllid)

Rhoddodd ND ddiweddariad o gyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2025. Cafodd y pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am fusnes y cyfarfod a oedd yn cynnwys ystyried cynnydd Arolygiaeth

Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, y Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol ar y Cyd a diweddariad polisi.

Hysbyswyd gan CM fod JJ wedi codi ymholiad penodol yn ystod y cyfarfod ynghylch y polisi chwythu'r chwiban ac y byddai'n fuddiol i holl aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf. Hysbyswyd gan CM fod sicrwydd wedi'i roi bod gan bobl o fewn y sefydliad linell welediad a hyder mai'r polisi chwythu'r chwiban oedd y llwybr priodol a'u bod yn hyderus i roi gwybod ac adrodd am unrhyw broblemau. Mae hyn yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant o fewn y sefydliad ochr yn ochr â rhywfaint o waith diwylliant ehangach sy'n cael ei wneud. Mae uchelgais hefyd bod gan yr Adran Safonau Proffesiynol unigolyn rhagweithiol o fewn y tîm i symud hyn ymlaen.

Cam Gweithredu A6 – bod yr aelodau yn cael diweddariad mewn perthynas â gweithdrefnau'r Adran Safonau Proffesiynol gan gynnwys gwybodaeth am y polisi chwythu'r chwiban.

8. Ystyried yr adroddiadau canlynol gan yr archwilwyr mewnol:

a. Ystyried yr Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol (SICA) 2024/2025

Nododd JM nad oes unrhyw newidiadau wedi bod i'r cynllun ers y cytunwyd arno a bod y gwaith ar gyfer 2024/2025 bellach wedi'i gwblhau i gyd. O ran 2025/2026, mae dyddiadau adolygiadau bellach wedi'u cadarnhau ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynllun.

Hysbyswyd gan FS y dylai'r adolygiad o storio data TGCh aros ar y traciwr gan ei fod yn anghyflawn gan fod angen adolygu'r adroddiad yn dilyn cyfarfod diweddar. Derbyniodd DM y pwynt hwn a nododd fod yr eitem ar yr agenda i'w thrafod.

b. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Storio Data TGCh

Hysbyswyd gan FS nad yr adroddiad mwyaf cyfredol fyddai'r adroddiad a oedd ar yr agenda i'w ystyried gan y pwyllgor gan y cynhaliwyd cyfarfod eithriadol o'r Grŵp Llywodraethu Archwilio ddau ddiwrnod ynghynt i drafod cynnwys yr adroddiad drafft.

Dywedwyd wrth y pwyllgor, yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod, fod GM wedi dechrau ar y gwaith o fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd, gan gynnwys llunio cwestiynau, eglurder ysgrifennu adroddiadau ac eglurder argymhellion.

Hysbyswyd gan GM y cynhelir cyfarfod gyda'r swyddogion perthnasol i ystyried y cwestiynau a godwyd yn yr adolygiad ac y byddai adroddiad diwygiedig yn cael ei gwblhau erbyn dechrau mis Medi i ganiatáu digon o amser i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor. Cytunwyd y dylid gohirio ystyriaeth bellach o'r eitem hon tan ddyddiad diweddarach. Yn ogystal, cynigiodd yr aelod y dylid trefnu sesiwn ymwybyddiaeth ar gyfer swyddogion yr heddlu sy'n gyfrifol am ymateb i ganfyddiadau'r archwiliad.

Cam Gweithredu A7 – Bod yr adroddiad Storio Data TGCh yn cael ei ohirio o'r cyfarfod hwn er mwyn caniatáu i drafodaethau'r Grŵp Llywodraethu Archwilio eithriadol gael eu hadlewyrchu mewn adroddiad diwygiedig. Adroddiad wedi'i ddiweddarau i'w ddosbarthu i'r aelodau y tu allan i'r cyfarfod cyn ei ailystyried gan y Grŵp Llywodraethu Archwilio a chyn y Cyd-bwyllgor Archwilio nesaf ym mis Hydref.

Cam Gweithredu A8 – Trefnu sesiwn ymwybyddiaeth ar gyfer arweinwyr adolygu ar yr hyn a ddisgwylir mewn perthynas â sylwadau rheolwyr.

c. Ystyried Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024/2025

Cyflwynodd JM yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol i'r pwyllgor a oedd yn cynnwys barn gyffredinol yr archwilydd, ac y dylid nodi na fydd yn newid beth bynnag fo canlyniad terfynol yr Adolygiad Sicrwydd o Storio Data TGCh. Y farn ar gyfer 2024/2025 oedd bod "TIAA yn fodlon, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, fod gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith".

d. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Gwynion (SCHTh)

Ystyriwyd Adolygiad Sicrwydd o Gwynion (SCHTh) gan yr aelodau. Cafodd yr adolygiad sicrwydd sylweddol a gwnaed un argymhelliad blaenoriaeth lefel isel o dri mewn perthynas â'r broses benderfynu ar achosion cymhleth. Nododd yr aelodau fod hwn yn adroddiad da.

Gofynnodd FS a oedd y llywodraethu cyffredinol wedi cael ei ystyried yn ystod yr adolygiad hwn. Dywedodd CM fod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh) wedi cryfhau'r trefniadau llywodraethu yn ddiweddar drwy gyflwyno Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol sy'n cael ei gadeirio gan CM ar ran y Comisiynydd. Fel rhan o'r agenda mae ystyriaeth reolaidd o weithgarwch cwynion.

e. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Ailhyfforddi Gyrwyr

Ystyriodd yr aelodau'r adolygiad sicrwydd o ailhyfforddi gyrwyr a gafodd sicrwydd sylweddol heb unrhyw argymhellion. Croesawyd adran gwybodaeth ychwanegol yn yr adroddiad gan yr aelodau gan ei bod yn rhoi cefndir i faes nad oedd y pwyllgor yn gyfarwydd ag ef.

9. Datganiad Llywodraethu Blynnyddol Drafft 2025/2026

Daeth Datganiad Llywodraethu Blynnyddol drafft ar gyfer 2025/2026 i law'r aelodau. Hysbyswyd gan GM fod y gwelliannau yn fformat yr adroddiad wedi deillio o'r gwelliannau a wnaed yn y trefniadau llywodraethu. Mae llwybr archwilio y tu ôl i'r adroddiad sy'n caniatáu craffu ar unrhyw newidiadau.

Ystyriwyd a chytunwyd ar yr argymhellion yn yr adroddiad gan y pwyllgor.

10. Ystyried Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys 2024/2025.

Hysbysodd ND yr aelodau fod angen ailystyried yr adroddiad mewn perthynas â'r dangosyddion darbodus gan fod angen mân newidiadau iddynt. Cytunodd y pwyllgor y gellid dosbarthu'r wybodaeth y tu allan i'r cyfarfod.

Cam Gweithredu A9 – Bod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys mewn perthynas â dangosyddion darbodus yn cael ei dosbarthu y tu allan i'r cyfarfod yn dilyn gwelliannau.

11. Ymholiadau archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Ystyriwyd adroddiad "Ymholiadau archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" gan yr aelodau. Dywedwyd wrth y pwyllgor ei fod yn llythyr safonol gan Archwilio Cymru yn gofyn am ymatebion i nifer o gwestiynau penodol. Mae'r cwestiynau wedi cael eu hateb gan y swyddogion perthnasol o'r Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Nododd DM fod yr ymatebion i'r ymholiadau yn foddhaol a chroesawodd yr adroddiad.

Derbyniwyd yr adroddiad gan yr aelodau a chytunwyd ar ymatebion y rheolwyr ynddo.

12. Cylch Cynllunio a Sicrwydd

Ystyriwyd adroddiad diweddar ar y cylch cynllunio a sicrwydd gan yr aelodau a hysbyswyd gan GM y bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu i'r

pwyllgor yn y dyfodol. Mae pob arweinydd adrannol yn datblygu cyflwyniadau i'w cyflwyno i dîm y Prif Swyddog ddiwedd mis Awst.

Dyweddodd JJ wrth y pwyllgor fod Cynllun Gweithlu Corfforaethol wedi'i ystyried gan y Bwrdd Cynllunio Gweithlu Strategol yn ddiweddar a dylid cynnwys diweddariad ar gynnydd cynlluniau'r gweithlu mewn diweddariad ar y cylch cynllunio a sicrwydd. Gofynnodd y pwyllgor i ddiweddariad gael ei ddarparu i gyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ym mis Hydref a fydd yn caniatáu digon o amser i ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ac a gytunwyd ar Ddiwrnodau Cwrdd i Ffwrdd y Prif Swyddogion.

Cam Gweithredu A10 – Bod adroddiad diweddarar ar y cylch cynllunio a sicrwydd yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Hydref

13. Cofrestr Risg yr Heddlu

Daeth yr adroddiad diweddarar diweddaraf mewn perthynas â chofrestr risg yr heddlu i law'r pwyllgor. Dywedodd GM nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol wedi bod ers i'r pwyllgor ystyried yr adroddiad diwethaf. Un newid yr oedd angen ei nodi oedd mewn perthynas â'r canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol lle codwyd pryder mewn perthynas â'r ganolfan yn Abertawe a oedd wedi methu â chael achrediad. Gan fod angen yr un achrediad ar bob canolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, mae cyfle i'r heddlu ddysgu o hyn wrth iddynt ddatblygu safle yn Aberystwyth.

Nododd CW mai'r risg mewn perthynas â chanolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol oedd na fyddai achrediad yn cael ei gyflawni erbyn 2 Hydref 2025 a gofynnodd pa gynlluniau wrth gefn oedd ar waith pe na bai Aberystwyth yn derbyn achrediad. Dywedodd GM fod cynllun wrth gefn ar waith a byddai'r adeilad presennol yn Bow Street, Aberystwyth yn parhau.

14. Cofrestr Risg Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Daeth adroddiad diweddarar diweddaraf mewn perthynas â Chofrestr Risg Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i law'r aelodau. Hysbysodd NE y pwyllgor fod risg wedi'i dileu o'r gofrestr mewn perthynas â'r cadeiryddion â chymwysterau cyfreithiol. Mae'r risg wedi'i dileu o ystyried nad oes unrhyw baneli camymddygiad wedi'u canslo oherwydd diffyg cadeiryddion â chymwysterau cyfreithiol, serch hynny, byddai'n fater a fyddai'n cael ei fonitro'n agos gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Dywedwyd wrth y pwyllgor fod y sgôr mewn perthynas â'r risg fetio wedi lleihau a bod hyn oherwydd nad yw problemau neu risgiau wedi dod i'r amlwg fel y

tybiwyd yn wreiddiol. Bydd hyn yn cael ei fonitro dros y tymor byr ac os yw'r sefyllfa'n parhau'r un fath gellir ei ddileu o'r gofrestr risg.

Dywedodd NE fod risg newydd wedi'i chynnwys ar y gofrestr a bod hyn yn ymwneud ag Asesiadau Effaith Diogelu Data. Mae hyn mewn perthynas ag oedi wrth lofnodi asesiadau ac mae hyn yn effeithio ar rai o'n gwasanaethau a gomisiynwyd. Nododd yr aelodau fod gweithgor wedi'i sefydlu i adolygu'r sefyllfa a bod hyn wedi'i uwchgyfeirio at brif swyddogion o fewn yr heddlu trwy Fwrdd Perfformiad Strategol y Comisiynydd. Hysbyswyd gan NE fod y sgôr risg wedi'i hepgor o'r adroddiad ond cadarnhaodd mai'r sgôr risg gychwynnol a gweddilliol oedd 25.

15. Diweddariad ar weithgarwch twyll

Rhoddodd NE ddiweddariad mewn perthynas â gweithgarwch twyll a hysbysodd y pwyllgor fod sawl achos yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bod y rhain wedi'u rhestru yn yr adroddiad "Ymholiadau archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu"

16. Diweddariadau aelodau

Rhoddodd JJ ddiweddariad mewn perthynas â hyfforddiant Cyd-bwyllgor Archwilio Cymru Gyfan a thynnwyd sylw at y cyflwyniad a dderbyniwyd mewn perthynas â seiberddiogelwch ac awgrymodd y dylai gweddill aelodau'r pwyllgor dderbyn yr hyfforddiant hwn ynghyd ag unrhyw swyddogion â diddordeb.

Rhoddodd CW ddiweddariad ar waith Pwyllgor Dethol y Comisiynydd a'r gwaith sydd wedi'i wneud i gasglu tystiolaeth mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc 18 i 25 oed.

Cam Gweithredu A11 – Bod trefniadau'n cael eu gwneud i gynrychiolydd o'r TIAA roi'r cyflwyniad ar seiberddiogelwch i aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio a swyddogion perthnasol.

17. Unrhyw fater arall

Hysbyswyd yr aelodau fod gwaith pellach yn cael ei wneud mewn perthynas â mynediad TGCh yr aelodau. Mae hyn oherwydd bod rhai enghreifftiau o wrthdaro o fewn y systemau wedi codi materion y mae angen ymchwilio iddynt. Mae TGCh hefyd wedi cael gwybod am nodwedd ddiogelwch newydd o'r enw dyfrnodi dynamig. Nid oes amserlenni penodol ar hyn o bryd, ond bydd NE yn cysylltu â'r aelodau unwaith y bydd diweddariad.



Dyddiad y cyfarfod nesaf:

24 Medi 2025 – Seminar Datganiadau o Gyfrifon

22 Hydref 2025 – Cyd-bwyllgor Archwilio



CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD AR (31 Gorffennaf 2025)

Rhif y cam gweithredu	Crynodeb o'r cam gweithredu	I'w symud ymlaen gan	Cynnydd
A 1	Lle nad yw adroddiad yn cael ei baratoi mewn pryd ar gyfer y cyfarfod a drefnwyd, dylid rhoi cod lliw ar y gell gyfatebol ar y cynllun gwaith i amlygu'r adroddiadau hynny sydd wedi'u gohirio.	NE	Wedi'i gwblhau – bydd y cynllun gwaith nawr wedi'i godio â lliw i nodi adroddiadau sydd wedi'u gohirio.
A 2	Cynnwys cyn aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio, Brian Jones, fel troednodyn yn Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio	NE	Wedi'i gwblhau – mae hyn wedi'i ychwanegu at yr adroddiad blynyddol.
A 3	Dileu'r sôn am y Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth yn Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio gan nad oedd unrhyw aelod wedi bod yn bresennol yn ystod 2024/2025.	NE	Wedi'i gwblhau – Mae sôn am y Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth wedi'i ddileu o'r adroddiad blynyddol.
A 4	Diwygio'r paragraff sydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio mewn perthynas ag Adroddiadau Archwilio Mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2024/2025 fel ei fod yn adlewyrchu Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol.	NE	Wedi'i gwblhau – Mae'r paragraff yn yr adroddiad blynyddol wedi'i ddiwygio i adlewyrchu Adroddiad Blynyddol Archwiliad Mewnol.
A 5	Bod adroddiad y Grŵp Llywodraethu Archwilio yn cael ei ddiweddarau cyn y Cyd-bwyllgor Archwilio i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r dyddiadau diweddaraf y cytunwyd arnynt ar gyfer adolygiadau.	MR	Wedi'i gwblhau - Bydd yr adroddiad yn cael ei ddiweddarau cyn pob Cyd-bwyllgor Archwilio.
A 6	Bod aelodau yn cael diweddariad mewn perthynas â gweithdrefnau'r Adran Safonau Proffesiynol gan gynnwys gwybodaeth am y polisi chwythu'r chwiban.	NE	Cwblhawyd – Rhannwyd Canllaw Safonau Proffesiynol diwygiedig ag aelodau drwy e-bost. Mae'r canllaw yn gynnwys gwybodaeth mewn perthynas â chwythu'r chwiban.

A 7	Bod yr adroddiad storio data TGCh yn cael ei ohirio o'r cyfarfod hwn er mwyn caniatáu i drafodaethau cyfarfod eithriadol y Grŵp Llywodraethu Archwilio gael eu hadlewyrchu mewn adroddiad diwygiedig. Adroddiad wedi'i ddiweddarau i'w ddosbarthu i'r aelodau y tu allan i'r cyfarfod cyn ei ailystyried gan y Grŵp Llywodraethu Archwilio cyn y Cyd-bwyllgor Archwilio nesaf ym mis Hydref.	MR/TIAA	Wedi'i gwblhau – Mae'r adroddiad storio data TGCh wedi'i gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod 22 Hydref 2025. Ni rannwyd yr adroddiad ar wahân â'r aelodau ymlaen llaw.
A 8	Mae sesiwn ymwybyddiaeth ar gyfer arweinwyr adolygu wedi'i drefnu ar yr hyn a ddisgwyllir mewn perthynas â sylwadau rheolwyr.	MR	Yn mynd rhagddo – Mae swyddogion wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o TIAA a chynhelir sesiwn hyfforddiant ar 28 Tachwedd 2025. Bydd y sesiwn hefyd yn cael ei recordio i ganiatáu i aelodau staff ychwanegol dderbyn yr hyfforddiant.
A 9	Bod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys mewn perthynas â dangosyddion darbodus yn cael ei dosbarthu y tu allan i'r cyfarfod yn dilyn gwelliannau.	ND	Wedi'i gwblhau – dosbarthwyd adroddiad diwygiedig i'r aelodau ar 16 Medi 2025.
A 10	Bod adroddiad diweddarau ar y cylch cynllunio a sicrwydd yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Hydref.	GM	Wedi'i gwblhau – Bydd adroddiad diweddarau ar y cylch cynllunio a sicrwydd yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y Seminar Cyllid a gynhelir ar 25 Tachwedd.
A 11	Bod trefniadau'n cael eu gwneud i gynrychiolydd o TIAA gyflwyno'r cyflwyniad ar seiberddiogelwch i aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio a swyddogion perthnasol.	NE	Yn mynd rhagddo – Cyflwyniad ar seiberddiogelwch i'w ddarparu yn y cyfarfod a gynhelir ym mis Rhagfyr 2025.